Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Adroddiad ynglŷn â Chysylltiadau Rhynglywodraethol 2021-23** |
| **DYDDIAD** | **18 Gorffennaf 2023** |
| **GAN** | **Y Prif Weinidog, Mark Drakeford AS** |

Mae Llywodraeth Cymru heddiw wedi cyhoeddi adroddiad am gysylltiadau rhynglywodraethol sy'n ymwneud â'r cyfnod 2021-23. Mae ar gael yma: Darparu gwybodaeth rynglywodraethol i'r Senedd: adroddiad 2021 i 2023

Diben yr adroddiad yw rhoi asesiad cytbwys o natur y gwaith rhynglywodraethol ar draws Llywodraeth Cymru, a chrynhoi'r ymgysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yng nghyd-destun y Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol rhwng Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru.

Mae'n ychwanegu at y diweddariadau rheolaidd y mae Llywodraeth Cymru'n eu rhoi i'r Senedd, yn y cyfarfodydd llawn a chyfarfodydd pwyllgor, a thrwy ddatganiadau ysgrifenedig a gohebiaeth.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.